vii. Roedd symud i Lefel Rhybudd 2 Llywodraeth Cymru yn golygu y gellid ail-ddechrau gweithgareddau dan do i hyd at 30 o bobl a gweithgareddau awyr agored i hyd at 50 o bobl. Mae hyn hefyd wedi galluogi Undeb y Myfyrwyr i ddarparu rhai gweithgareddau Clwb a Chymdeithas i fyfyrwyr cyn diwedd y tymor.

viii. Gan mai cyngor Llywodraeth Cymru yw 'gweithio gartref' lle bynnag y bo modd, nid oes cefnogaeth hyd yma i gynnal cyfarfodydd staff Prifysgol ar y campws os gellir gwneud hynny ar-lein.

ix. Derbyniwyd ac ystyriwyd dau bapur manwl yn y cyfarfod diwethaf:

- Dychwelyd i'r Campws: y canllawiau cyfredol yw parhau i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl. Ni ddisgwylir cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru èyƎKèfǑK yŜǿʎŘʎl·Řl·ʣ ʎ [ŜŦŜfl·ʣ wKèōʣŘŘ l· ǊKŜƻfl·ŜǘKl·ʣ èyƎfÌyʃŃΩǊ ǑƻǊƻyʎl·ŦʎǊǿă tan yn ddiweddarach ym mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf pan obeithir y gellir darparu mwy o eglurder ynghylch staff yn dychwelyd i'r campws.
- Teithio Rhyngwladol: Mae teithio tramor cyfyngedig wedi'i gymeradwyo ar sail achosion unigol. Ni ellir rhoi caniatád cyffredinol i ailddechrau teithio dramor gan fod teithio yn drafferthus a chymhleth iawn oherwydd y ƎƻŦèyʎƻyʃŦŜăʣf Ǝǿfl·Ř ăèΩyʃyŜǿʎŘ èyʃōl·ǊKl·ƻfΣ ŜφŜφ lefelau risg gwledydd, gofynion profi, cwarantîn, a'r costau ychwanegol sylweddol a ddaw yn sgil hyn.

x. a l·Ŝ ăǿèŘŘƻƎl·ŜǘK è DǊÂǇ ¢l·ăƎ èyʃǑèyʃyʃǿèă wKŜƻfʎ !ǊƎèŦèyƎl·ʣ l·Ǒ èyʃKèyʃƻ ōŜǘK mae wedi ystyried dwy weithdrefn sydd wedi eu diweddaru:

- Gweithdrefnau 'Cyfyngiadau Symud Brys' ar gyfer Adeiladau a Safleoedd
- Gweithdrefnau a Phrotocolau Marwolaeth Aelod neu Staff

Cafwyd trafodaeth ynghylch profi Gweithdrefnau Cyfyngiadau Symud Brys a chytunwyd

Brifysgol bellach groesawu hyd at 30 o bobl y tu mewn a hyd at 50 o bobl yn yr awyr agored (gan gadw pellter cymdeithasol).

iii. Awyru: Gwnaed gwaith helaeth yn 2020, yn enwedig i hwyluso ymarferion labordy ac addysgu yn y cnawd. Mae asesiadau ychwanegol bellach ar y gweill i alluogi cynnal mwy o weithgareddau a chefnogi staff a myfyrwyr i ddychwelyd i'r campws maes o law. Ar gyfer mannau ac ystafelloedd problemus, mae'r Brifysgol yn cloriannu dewisiadau fel defnyddio hidlyddion HEPA a systemau puro germladdol UVC (Uwchfioled amrediad C).

iv. Gweithio o Bell: Gweithio gartref yw dewis cyntaf o hyd yr holl staff nad oes raid iddynt weithio [illegible] yn y dyfodol a'r rheolaethau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â darparu

llawnʋ èƴ ȸ Ƴʎă Ŏèƴǘl·Ŧ è ŦƒǿèŘŘèƴ̸ wƻŜŘŘ poȸ ƻΩǋ ŘèŘŘʎl·ʣ Ƙèƴ̸Σ l· пȸ l·ŎKƻăΣ oherwydd symptomau yn ymwneud â Covid-19.

iv. Ni chrybwyllwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn ymwneud â'r Amgylchedd yn ystod y cyfnod hwn.

609. Unrhyw Fater Arall

Nodwyd yr eitemau canlynol:

i. Darparwyd gwybodaeth am Brotocol Cymru gyfan 'Addysg Uwch - adolygiad diwedd tymor yr haf' y cytunwyd arno rhwng Prifysgolion Cymru a'r Undebau Llafur.

ii. Bellach mae angen i'r holl staff gwblhau'r Cynllun Cynefino Covid-19 ar-lein. Nodir y caiff hyn ei adolygu cyn blwyddyn academaidd 21/22 a gofynnir am gefnogaeth yr uned Marchnata a Chyfathrebu i ffilmio a gwella'r hyfforddiant Cynefino.

Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (I'W CADARNHAU) fel a ganlyn:

29 Hydref 2021, 10am

4 Mawrth 2022, 2pm, i'w gadarnhau

27 Mai 2022, 2pm, i'w gadarnhau